Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan Medr o berthnasedd Adroddiad Gillies ar y Gwersi a Ddysgwyd i'r sector addysg drydyddol yng Nghymru

Mai 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English
www.medr.cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cynnwys

Diben a chyd-destun ... 3
Asesiad cyffredinol ... 3
Meysydd dysgu allweddol a chamau gweithredu i Medr ... 4
1. Atgyfnerthu'r ffordd y caiff adroddiadau ariannol a threfniadau rheoli arian parod eu goruchwylio ... 4
2. Rheoli risg a her gan gyrff llywodraethu ... 4
3. Rhybuddion cynnar, sensitifrwydd ac uwchgyfeirio ... 5
4. Benthyca, cyfamodau a risgiau trysorfa ... 5
5. Diwylliant, llywodraethu a bod yn agored i her ... 6
Casgliad ... 7

## Diben a chyd-destun

Gwnaeth Adroddiad Gillies[1], a gomisiynwyd gan Gyngor Cyllido'r Alban (SFC), archwilio'r ffactorau a achosodd y dirywiad cyflym yn sefyllfa ariannol Prifysgol Dundee. Er y daw'r adroddiad i'r casgliad mai ffactorau a oedd yn berthnasol i Brifysgol Dundee yn benodol oedd llawer o'r rhain, mae'n tynnu sylw at risgiau sy'n wynebu darparwyr addysg drydyddol drwy'r sector cyfan mewn amgylchedd gweithredu cynyddol anwadal, yn enwedig mewn perthynas â recriwtio myfyrwyr, rheoli arian parod a goruchwylio trefniadau llywodraethu, ac yn nodi cyfres o wersi sy'n berthnasol i'r sector addysg uwch ehangach a'i reoleiddwyr.

Ar y sail honno, comisiynodd Medr adolygiad annibynnol o berthnasedd y gwersi hynny i Gymru ac i Medr, gyda'r bwriad o lywio'r broses barhaus o ddatblygu ein dull rheoleiddio, gyda ffocws arbennig ar atal cwymp ariannol afreolus a diogelu myfyrwyr a budd y cyhoedd. Mae Adroddiad Gillies yn canolbwyntio ar y sector addysg uwch, ond mae cwmpas adolygiad Medr, fel rheoleiddiwr addysg drydyddol, yn cynnwys perthnasedd i'r sector addysg drydyddol ehangach, gan gydnabod yr amrywiaeth eang a gwmpesir gan hyn.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi canfyddiadau allweddol adolygiad annibynnol Medr.

## Asesiad cyffredinol

Daw'r adolygiad i'r casgliad na allai'r un fframwaith rheoleiddio roi sicrwydd llwyr na allai methiant tebyg i'r hyn a ddigwyddodd i Brifysgol Dundee ddigwydd yng Nghymru hefyd. Fodd bynnag, mae'r adolygiad yn nodi nifer o gamau gweithredu cadarnhaol y mae Medr eisoes yn eu cymryd i leihau tebygolrwydd sefyllfa o'r fath, ac yn argymell camau gweithredu pellach ar gyfer gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cydnabod y gall methiant ariannol ddigwydd yn gyflym os na fydd trefniadau llywodraethu a phrosesau gwneud penderfyniadau'n datblygu'n ddigon cyflym mewn ymateb i'r risgiau, neu os bydd diwylliant sefydledig yn llesteirio llif gwybodaeth. Gan eu bod yn sefydliadau ymreolaethol, darparwyr a'u cyrff llywodraethu sy'n bennaf cyfrifol am gynaliadwyedd ariannol a threfniadau llywodraethu. Fodd bynnag, mae dyletswydd statudol ar Medr i fonitro cynaliadwyedd ariannol, i adnabod risgiau sy'n datblygu, ac i ymgysylltu mewn modd cymesur ac effeithiol pan fydd risgiau'n cynyddu. Felly, mae lliniaru risg yn effeithiol yn dibynnu nid yn unig ar brosesau rheoleiddio, ond hefyd ar ansawdd, amseroldeb a natur agored yr ymgysylltu rhwng darparwyr a Medr, yn enwedig yn ystod cyfnodau o anwadalrwydd ariannol.

Mae canfyddiadau Adroddiad Gillies yn atgyfnerthu pwysigrwydd:

- tynnu sylw at straen ariannol yn gynnar;
- her gadarn gan lywodraethwyr;
- perthynas agored a thryloyw rhwng rheoleiddwyr a darparwyr;
- capasiti rheoleiddio digonol i ddadansoddi gwybodaeth ariannol a gweithredu'n gyflym.

[1] https://www.sfc.ac.uk/wp-content/uploads/2025/06/Gillies-Report.pdf

## Meysydd dysgu allweddol a chamau gweithredu i Medr

### 1. Atgyfnerthu'r ffordd y caiff adroddiadau ariannol a threfniadau rheoli arian parod eu goruchwylio

Mae Adroddiad Gillies yn tynnu sylw at bwysigrwydd allweddol adroddiadau ariannol integredig, amserol a thryloyw, sy'n ymdrin ag incwm a gwariant, llif arian parod, y fantolen, buddsoddiad cyfalaf a threfniadau benthyca.

Mae'r adolygiad hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwydnwch sefydliadau a'u gallu i lunio gwybodaeth ariannol a chraffu arni, yn enwedig pan fydd sefydliadau'n cael eu hailstrwythuro neu pan fydd gwybodaeth ym meddiant nifer bach o unigolion.

**Ymhlith mesurau diogelu presennol Medr mae:**

- ei gwneud yn ofynnol paratoi rhagolygon ariannol amlflwyddyn gan gynnwys, ar gyfer addysg uwch, gwaith modelu ochr waethaf safonedig a pherthnasol i sefydliadau penodol, a chyfrifon blynyddol archwiliedig;
- mwy o ffocws ar ragolygon llif arian parod ac isafswm lefelau arian parod;
- craffu ar drefniadau llywodraethu ar gyfer cynigion benthyca drwy'r broses trothwyon benthyca;
- ymgysylltu'n rheolaidd ag arweinwyr cyllid darparwyr, a hynny'n amlach yn achos y darparwyr sy'n wynebu risg uwch.

**Ymhlith y camau gweithredu pellach a argymhellir ar gyfer Medr mae:**

- hwyluso cyfleoedd i rannu arferion da drwy'r sector cyfan mewn perthynas â chyflwyno a defnyddio adroddiadau ariannol (er enghraifft, cyfrifon rheoli) gan dimau gweithredol a chyrff llywodraethu;
- annog mwy o dryloywder ynghylch incwm yn ogystal â gwariant ar lefel darparwyr, yn enwedig yn ystod cyfnodau o anwadalrwydd;
- atgyfnerthu disgwyliadau ynghylch rhoi gwybod i Medr am newidiadau annisgwyl o ran uwch-arweinwyr cyllid neu aelodau cyrff llywodraethu;
- ehangu gweithgareddau ymgysylltu ag archwilwyr mewnol ac allanol.

### 2. Rheoli risg a her gan gyrff llywodraethu

Un thema sy'n codi droeon yn Adroddiad Gillies yw'r methiant i adnabod, uwchgyfeirio a herio risgiau ariannol cynyddol er gwaethaf bodolaeth cofrestri risg a strwythurau pwyllgorau ffurfiol. Mae'r adolygiad yn atgyfnerthu'r ffaith bod rheoli risg yn effeithiol yn dibynnu ar her weithredol, chwilfrydedd a hyder i gwestiynu, ac nid dim ond ar bresenoldeb prosesau wedi'u dogfennu.

**Ymhlith mesurau diogelu presennol Medr mae:**

- derbyn adroddiadau Archwilio Mewnol blynyddol;
- ymgysylltu â rhwydweithiau archwilio a chyllid y sector;

- datblygu asesiadau risg darparwyr a llythyrau risg i gyrff llywodraethu;
- ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu hunanwerthuso.

**Ymhlith y camau gweithredu pellach a argymhellir ar gyfer Medr mae:**

- helpu i gynnal hyfforddiant estynedig i lywodraethwyr a chodi ymwybyddiaeth o risg drwy'r sector cyfan, a hynny wedi'i deilwra i gyd-destun Cymru;
- annog gwell gweithgareddau dysgu gan gymheiriaid drwy rwydweithiau Cymru gyfan sy'n cysylltu cadeiryddion pwyllgorau megis pwyllgorau archwilio a chyllid ac adnoddau â chadeiryddion pwyllgorau cyfatebol darparwyr eraill yng Nghymru;
- gofyn am fwy o amlygrwydd i ganfyddiadau archwilio mewnol arwyddocaol pan fyddant yn ymwneud â gwendidau ym maes llywodraethu neu reolaeth ariannol;
- cynnal gweithgareddau ymgysylltu rheolaidd ar lefel uwch rhwng Medr a chadeiryddion, Swyddogion Cyfrifol ac uwch-dimau arwain darparwyr.

## 3. Rhybuddion cynnar, sensitifrwydd ac uwchgyfeirio

Mae'r adolygiad yn pwysleisio pwysigrwydd dadansoddiadau sensitifrwydd realistig, yn enwedig mewn perthynas â recriwtio myfyrwyr a hyblygrwydd arian parod, a gweithredu'n bendant pan ddaw rhybuddion cynnar i'r amlwg.

Mae'r adolygiad hefyd yn cydnabod nad dim ond rhybuddion meintiol yw'r rhybuddion cynnar bob amser, ac y gallant ddod i'r amlwg drwy weithgareddau ymgysylltu, dangosyddion ymddygiad neu bryderon a godir yn anffurfiol. Er mwyn gweithredu mewn ymateb i arwyddion o'r fath, mae angen eglurder ynghylch llwybrau uwchgyfeirio a diwylliant sy'n cefnogi datgeliadau amserol.

**Ymhlith mesurau diogelu presennol Medr mae:**

- dadansoddiadau sensitifrwydd gorfodol o fewn rhagolygon a gyflwynir;
- gofynion i adrodd ar ddigwyddiadau penodedig yn unol â'r Cod Rheolaeth Ariannol, a gofynion cyfatebol yn y system reoleiddio newydd;
- atgyfnerthu diwylliant “dim byd annisgwyl” wrth ymgysylltu â darparwyr.

**Ymhlith y camau gweithredu pellach a argymhellir ar gyfer Medr mae:**

- ymestyn dadansoddiadau sensitifrwydd y tu hwnt i flwyddyn gyntaf rhagolygon;
- ceisio sicrwydd ychwanegol gan ddarparwyr sy'n wynebu risg uwch ynglŷn ag amlder ac ansawdd adroddiadau ariannol i bwyllgorau cyllid a chyrff llywodraethu;
- adolygu digwyddiadau adroddadwy er mwyn sicrhau cysondeb â'r gwersi o Adroddiad Gillies a'r egwyddor “dim byd annisgwyl”.

## 4. Benthyca, cyfamodau a risgiau trysorfa

Mae Adroddiad Gillies yn esbonio’r risgiau sy'n gysylltiedig â goruchwylio annigonol ar gyfer trefniadau benthyca a chydymffurfiaeth â chyfamodau, yn enwedig os na fydd

gwaith monitro'n amserol nac yn dryloyw, neu os na fydd y gwaith monitro hwnnw yn destun adroddiadau priodol.

**Ymhlith mesurau diogelu presennol Medr mae:**

- adolygu cynigion benthyca a chyfamodau drwy'r broses trothwyon benthyca;
- monitro cydymffurfiaeth â chyfamodau drwy ragolygon ac ymgysylltu ag arweinwyr cyllid.

**Ymhlith y camau gweithredu pellach a argymhellir ar gyfer Medr mae:**

- atgyfnerthu disgwyliadau ynglŷn ag adroddiadau amser real ar y risgiau sy'n gysylltiedig â chyfamodau ac achosion posibl o'u torri;
- atgyfnerthu trafodaeth ynghylch risg ariannol mewn cyfarfodydd ymgysylltu ar lefel uwch gydag arweinwyr darparwyr;
- egluro'r disgwyliadau ynglŷn â datgelu newidiadau i delerau benthyca yn gynnar.

## 5. Diwylliant, llywodraethu a bod yn agored i her

Un o gasgliadau canolog Adroddiad Gillies yw bod diwylliant yn bwysig: mae llywodraethu effeithiol yn dibynnu ar fod yn agored ac yn chwilfrydig, ac ar ddiogelwch seicolegol ac atebolrwydd clir. Mae'r adolygiad yn pwysleisio y gall gwendid diwylliannol danseilio trefniadau llywodraethu ffurfiol, yn enwedig yn ystod cyfnodau o straen, a llesteirio her hyd yn oed pan fydd strwythurau'n ymddangos yn gadarn.

**Ymhlith mesurau diogelu presennol Medr mae:**

- gofynion ar gyfer adolygiadau annibynnol o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu;
- monitro cyfansoddiad byrddau, eu cyfnodau dal swydd a'u cydymffurfiaeth â chodau llywodraethu;
- ymgysylltu â myfyrwyr-lywodraethwyr ac ysgrifenyddion prifysgolion;
- adolygu trefniadau chwythu'r chwiban darparwyr.

**Ymhlith y camau gweithredu pellach a argymhellir ar gyfer Medr mae:**

- ategu ymweliadau sicrwydd cylchol ag ymgysylltu thematig sy'n seiliedig ar risg;
- hyrwyddo canllawiau a rhestrau gwirio cliriach er mwyn helpu cyrff llywodraethu i herio gwybodaeth ariannol;
- annog mesurau diogelu clir i hwyluso her, megis enwebu uwch-aelod annibynnol o'r bwrdd i fwydo'n ôl ynghylch heriau a phryderon;
- atgyfnerthu gweithgareddau ymgysylltu ag ysgrifenyddion a chlercod prifysgolion;
- archwilio dulliau diogel i staff darparwyr godi pryderon â Medr pan fydd hynny'n briodol, os na fydd dulliau adrodd mewnol darparwyr yn gweithredu fel y dylent;
- gwella prosesau mapio gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid, safoni amserlenni ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu o'r fath rhwng timau Medr a

lledaenu gwybodaeth yn well yn fewnol er mwyn helpu i driongli gwybodaeth o weithgareddau ymgysylltu a chael cymaint â phosibl o sicrwydd aml-ffynhonnell;

- cynnal capasiti i fonitro safonau llywodraethu o fewn fframwaith rheoleiddio sy'n fwy parod ar gyfer ymyriadau.

## Casgliad

Mae Adroddiad Gillies yn ein hatgoffa'n amserol y gall methiant ariannol ddigwydd yn gyflym, hyd yn oed mewn sefydliadau sydd wedi hen ennill eu plwyf, pan na fydd trefniadau llywodraethu ac adrodd a diwylliant yn datblygu'n ddigon cyflym mewn ymateb i'r risgiau. Er mai methiannau sy'n berthnasol i Brifysgol Dundee yn benodol yw llawer o'r rhai a nodwyd, mae egwyddorion sylfaenol rheolaeth ariannol dda, trefniadau llywodraethu cadarn a diwylliant agored yn berthnasol i bawb, ac mae'r gwersi sylfaenol yn hynod berthnasol i Gymru a'r sector addysg drydyddol ehangach.

I Medr, mae'r pwyslais ar atgyfnerthu dulliau rhybuddio'n gynnar, ymgysylltu'n ddyfnach, cefnogi trefniadau llywodraethu effeithiol, a sicrhau capasiti mewnol digonol i weithredu'n bendant pan fydd risgiau'n gwaethygu. Caiff y blaenoriaethau hyn eu hadlewyrchu yng nghanfyddiadau'r adolygiad annibynnol hwn ac yn y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu ein dull rheoleiddio cymesur sy'n seiliedig ar risg ac yn canolbwyntio ar atal, a hynny'n gyson â'n dyletswyddau statudol i ddiogelu dysgwyr a budd y cyhoedd.

Ers i'r adolygiad gael ei gwblhau, mae cynllun gweithredu cysylltiedig wedi cael ei ddatblygu er mwyn rhoi'r gwersi hyn ar waith. Rydym eisoes wedi dechrau cymryd nifer o gamau gweithredu, gan gynnwys atgyfnerthu capasiti dadansoddi ariannol, gwella gweithgareddau ymgysylltu â'r sector, a rhoi gwersi o Adroddiad Gillies ar waith wrth ddylunio a gweithredu ein fframwaith rheoleiddio newydd. Ochr yn ochr â hynny, rydym wedi ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad addysg uwch yng Nghymru adolygu ei drefniadau ei hun yn erbyn y camau gweithredu a argymhellir yn Adroddiad Gillies, ac adrodd ar ganlyniad yr adolygiad hwnnw i'w gorff llywodraethu, er mwyn atgyfnerthu'r cyfrifoldeb a rennir am gynaliadwyedd ariannol a llywodraethu effeithiol, gan gydnabod ar yr un pryd na all yr un fframwaith rheoleiddio ddileu'r risg o ddirywiad ariannol cyflym yn llwyr.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r sector i liniaru'r risgiau hyn cymaint â phosibl yng nghyd-destun y cyfyngiadau ar adnoddau sy'n gynhenid yn yr amgylchedd ariannol heriol a geir ar hyn o bryd. Caiff y camau gweithredu eraill eu cymryd yn raddol ac mewn modd cymesur sy'n seiliedig ar risg, gan gydnabod amrywiaeth y sector addysg drydyddol a'r angen i flaenoriaethu'r mesurau hynny sydd fwyaf tebygol o atgyfnerthu dulliau rhybuddio'n gynnar, her gan lywodraethwyr a pharodrwydd rheoleiddiol.

Fodd bynnag, mae'r adolygiad hefyd yn pwysleisio bod angen parhau i fod yn wyliadwrus mewn amgylchedd gweithredu hynod anwadal, a bod rheoleiddio effeithiol yn dibynnu nid yn unig ar fframweithiau a phrosesau, ond hefyd ar gapasiti dadansoddi parhaus, gwybodaeth amserol, ac ymgysylltu agored a thryloyw rhwng Medr a darparwyr. Bydd rhoi'r gwersi hyn ar waith yn gyson yn helpu i leihau'r risg o fethiant afreolus, yn diogelu dysgwyr a buddsoddiad cyhoeddus, ac yn cynnal hyder yn nhrefniadau llywodraethu ac ymreolaeth sefydliadau addysg drydyddol yng Nghymru.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**